



# Newyddlen Rhifyn 2 Ebrill 2017

## Cynnwys:

Adnodd newydd ar gyfer ysgolion.....	tudalen 1
Effaith cyllid yr UE ar ardaloedd lleol .....	tudalen 2
Move2Learn.....	tudalen 3
Yr UE yn 60 mlwydd Oed.....	tudalen 3
Dyfodol Ewrop.....	tudalen 3
Y diweddaraaf am Brexit.....	tudalen 4 a 5
Erasmus+ a Brexit.....	tudalen 5
Corfflu Undod Ewropeaidd....	tudalen 5 a 6
Y Gornel Goginio.....	tudalen 6
Gweithgareddau Europe Direct...	tudalen 7



@europedirectwrxm



/europedirectwrexham



01978 292631



[europedirect@wrexham.gov.uk](mailto:europedirect@wrexham.gov.uk)

Dewch i ymweld â ni yn Llyfrgell Wreccsam.

## Adnodd Newydd ar gyfer Ysgolion:

### Ffermio yn ganolog i'n bywydau –


### Archebwch eich copi am ddim nawr.

Dyluniwyd yr adnodd newydd hwn er mwyn helpu disgyblion i ddeall y rôl ehangach mae ffermwyr yn ei chwarae o fewn ein cymdeithas ac ein heconomi – nid yn unig drwy ddarparu'r bwyd yr ydym yn ei fwyta, ond hefyd drwy ddiogelu'r amgylchedd ac adnoddau naturiol, a diogelu bywiogrwydd cefn gwlad ac ardaloedd gwledig.

Mae'r pecyn yn cynnwys canllaw i athrawon, sy'n cynnwys taflen ffeithiau, map o gynhyrchiad amaethyddol yn yr UE a geirfa a fydd o gymorth i ateb cwestiynau'r disgyblion a dau gynllun ar gyfer gwersi cyflwyniadol. Mae hefyd sioe sleidiau a chlip fideo wedi'i animeiddio yn cyflwyno'r wybodaeth sylfaenol am amaethyddiaeth Ewropeaidd.

Mae modiwl ar gyfer pob un o'r tair thema: bwyd, yr amgylchedd a chefn gwlad. Mae pob modiwl yn cynnwys cyflwyniad byr ar gyfer athrawon, taflenni gwaith gyda gweithgareddau dysgu ac amlinelliad prosiect ar gyfer y disgyblion.

Mae copïau o'r adnodd ar gael am ddim gennym ni, mae pob pecyn yn cynnwys 30 gwerslyfr ar gyfer y disgyblion a phecynt ar gyfer athrawon.



Mae gennym hefyd gyhoeddiadau defnyddiol eraill ar gael ar gyfer ysgolion a cholegau. I weld yr hyn sydd ar gael, ewch i'n gwefan a chlicio ar y ddolen ar gyfer athrawon. Gweler y manylion o dan yr adran 'downloads'.

[http://www.wrexham.gov.uk/welsh/community\\_w/libraries/europe\\_direct](http://www.wrexham.gov.uk/welsh/community_w/libraries/europe_direct)



## Effaith Cyllid yr UE ar Ardaloedd Lleol

Yn yr adran newydd hon byddwn yn amlygu rhai prosiectau yn yr ardal leol sydd wedi derbyn cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd. Yn y rhifyn hwn byddwn yn canolbwyntio ar y cyllid a dderbyniodd Prifysgol Glyndŵr.

### Academi Fusnes Gogledd Cymru



Rhodddwyd £230,000 o gyllid i'r Brifysgol gan Erasmus Plus i astudio arferion mentrau

cymdeithasol ar draws Ewrop er mwyn nodi ffactorau sydd o gymorth i ddatblygu mentrau cymdeithasol drwy edrych ar fentrau llwyddiannus yn Sbaen, yr Eidal, Iwerddon, Gwlad Pwyl, Lithwania a Rwmania. Mae hwn yn brosiect dwy flynedd a fydd o gymorth i ryngwladoli'r cwricwlwm ar gyfer gradd BSc Menter Gymdeithasol newydd. Bydd hefyd yn datblygu cysylltiadau Ewropeaidd gydag entrepreneuriaid cymdeithasol a fydd hefyd o gymorth i'r myfyrwyr sy'n graddio o'r rhaglen newydd ddatblygu sgiliau go iawn. I gael rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth; Social Enterprise Development Education and Training Tools (SEDETT), ewch i [www.sedett.eu](http://www.sedett.eu)

### elechyd a TGCh

Dyfarnwyd grant arall i'r Brifysgol gan ErasmusPlus a fydd o gymorth i ddatblygu cwricwlwm elechyd newydd ar gyfer myfyrwyr Ewropeaidd. Dyfarnwyd y grant hwn, sydd dros €440,000 i Brifysgol Glyndŵr a phartneriaid yn Ffrainc, Sbaen, yr Almaen a Cyprus. Dros y tair blynedd nesaf byddant yn astudio effaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar iechyd er mwyn ceisio gwella rhagolygon swyddi a sgiliau entrepreneuriaid graddedigion y dyfodol.

Dywedodd Yr Athro Picking, "Bydd yr agwedd draws wladol yn ychwanegu ar werth y cynnyrch terfynol; bydd modd i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan gyflawni canlyniadau na fyddent yn bosib gan un wlad yn unigol."

Bydd y cwrs hefyd yn edrych ar sut y gall roboteg fod o gymorth ym maes gofal iechyd, megis cathod roboteg sydd o gymorth i wella lles unigolion sydd â dementia.

<https://www.glyndwr.ac.uk/en/AboutGlyndwrUniversity/Newsandmediacentre/Newsarchive/PressReleases2016/EHealth/>

### Astudiaeth Menter Gymdeithasol

Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) gwerth £4.4 miliwn ar gyfer Academi Fusnes Gogledd Cymru. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam. Prifysgol Bangor, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Nod y prosiect hwn yw cefnogi twf busnes a chystadleurwydd drwy ddarparu cymwysterau rheoli achrededig-prifysgol i fwy na 1,000 o weithwyr dros gyfnod o dair mlynedd.

Mae Academi Doniau Ifanc Gogledd Cymru yn rhan o'r fenter hon. Cefnogir y prosiect hwn gan £2.8 miliwn o arian yr UE, a bydd yn galluogi i gyflogwyr gael mynediad at gymorthdaliadau o hyd at 70% ar gyfer cyfleoedd datblygu a hyfforddi staff mewn meysydd megis rheolaeth ariannol, gwerthu a marchnata, strategaeth fusnes, llywodraethu a sgiliau gweithredol a rheoli.

<https://www.glyndwr.ac.uk/cy/YnglynaPhrifysgolGlyndwr/Canolfannewyddionachyfyryngau/ArchifNewyddion/DatganiadauirWasg2017/academi/>

Mae menter newydd o dan Erasmus+ yn galluogi myfyrwyr sydd rhwng

16 ac 19 mlwydd oed ac yn cymryd rhan ym mhrosiect eTwinning i deithio i wledydd eraill a thelir yr holl gostau teithio. Gall myfyrwyr deithio'n unigol neu fel dosbarth. Mae'r fenter hon yn fenter un tro yn unig i ddathlu pen-blwydd rhaglen Erasmus yn 30 mlwydd oed. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: <http://bit.ly/move2learn>

Os nad ydych wedi cymryd rhan ym mhrosiect eTwinning o'r blaen ond yn awyddus i ddarganfod mwy, ewch i [www.etwinning.net](http://www.etwinning.net).

Mae eTwinning yn cynnig llwyfan i staff (athrawon, penaethiaid, llyfrgellwyr ac ati), sy'n gweithio mewn ysgolion i gyfathrebu, cydweithio a datblygu prosiectau gydag ysgolion eraill mewn gwledydd eraill. Gall aelodau o staff a myfyrwyr weithio ar y prosiectau. Mae'n rhad ac am ddim ac mae porth eTwinning o gymorth i ddarganfod ysgolion eraill i gysylltu â hwy, i gyfathrebu a rheoli'r prosiect. Mae'n cynnig buddion i ddisgyblion a staff. Mae'r disgyblion yn cael cipolwg o fywyd yng ngwledydd eraill a diwylliannau gwahanol ac mae'r staff yn sicr o dderbyn datblygiad proffesiynol parhaus.

## Yr UE yn 60 mlwydd oed

60 mlynedd yn ôl ar 25 Mawrth, arwyddwyd Cytuniad Rhufain gan chwe gwlad – Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Belg, Lwcsembwrg, yr Eidal a'r Iseldiroedd. Dyma oedd dechrau'r hyn a adnabyddir heddiw fel yr Undeb Ewropeaidd. Sefydlwyd marchnad gyffredin (Y Gymuned Economaidd Ewropeaidd) lle bo pobl, nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf yn rhydd i symud o amgylch y gwledydd hynny. Fe ddaeth hyn o ganlyniad i'r chwe gwlad hynny'n gweithio gyda'i gilydd, yn rhannu adnoddau glo a dur fel rhan o Gymuned Glo a Dur Ewrop ers 1951. Ers hynny, mae wedi newid ac wedi tyfu'n sylweddol i'r hyn yr adnabyddwn heddiw fel yr Undeb Ewropeaidd.

## Dyfodol Ewrop

Wrth i'r UE baratoi i weithredu fel 27 gwlad mae'r Undeb yn edrych ar ffyrdd i symud ymlaen. Crëwyd pum senario a byddant o gymorth i lywio trafodaethau ar ddyfodol Ewrop a sefyllfa'r UE erbyn 2025. Nid yw'r pum senario hyn yn sefydledig nac ychwaith yn annibynnol ar ei gilydd.

Beth yw'r 5 senario?

1. Parhau- Mae'r UE yn canolbwyntio ar gynnal y rhaglen ddiwygio.
2. Y farchnad sengl yn unig – Mae'r UE'n ail ganolbwyntio'n raddol ar y farchnad sengl.
3. Y rheini sydd eisiau gwneud mwy - Caniatáu i Aelod-wladwriaethau, sy'n dymuno, wneud mwy gyda'i gilydd o fewn meysydd polisi penodol
4. Gwneud llai ond yn fwy effeithlon - Darparu mwy yn gyflymach o fewn meysydd polisi dewisedig wrth wneud llai ym manau eraill.
5. Gwneud llawer mwy gyda'n gilydd – Gwneud mwy ar draws yr holl feysydd polisi.

Cynhelir trafodaethau ar y senarios hyn a bydd papurau ar bynciau eraill i ddilyn gyda phob un yn cynnig syniadau, cynigion a barn. O bosib y deuir i'r casgliad cyntaf yn y Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2017, a fydd o gymorth i benderfynu ar ddull o weithredu i'w gyflwyno erbyn yr etholiadau Senedd Ewrop nesaf ym mis Mehefin 2019. Er na fydd y DU yn rhan o'r trafodaethau hyn, o bosib y bydd goblygiadau ar gyfer y DU o safbwynt ei pherthynas â'r UE unwaith y bydd y DU wedi gadael yr UE.



# Y Diweddaraf am Brexit


Ddydd Mercher, 29 Mawrth 2017, hysbysodd y DU y Cyngor Ewropeaidd yn swyddogol o'i bwriad i adael yr UE. Sbardunodd hyn Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd (Cytuniad Lisbon).

Mae amserlen bellach wedi'i sefydlu ar gyfer y broses drafod o ddwy flynedd.

Mae Canllawiau Drafft ar gyfer trafodaethau wedi cael eu llunio gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd. Dyma'r corff lle mae holl arweinwyr aelod-wladwriaethau'r UE yn cyfarfod i drafod materion. Nid yw'r DU yn rhan o lunio'r canllawiau hyn. Cyfeirir at y Cyngor hefyd fel EU27, sy'n golygu bod y 27 gwlad ar ôl yn yr UE yn dod at ei gilydd i drafod materion.

Gweler y canllawiau drafft yma: <http://bit.ly/DraftEU1>

Mae'r canllawiau'n trafod statws dinasyddion yr UE sy'n byw ac yn gweithio yn y DU a dinasyddion y DU sy'n byw ac yn gweithio o fewn yr UE, dyfodol rhaglenni a ariennir megis Horizon2020, y ffin gydag Iwerddon, cytundebau rhyngwladol, cysylltiadau masnach a phartneriaethau eraill megis ymladd yn erbyn terfysgaeth, troseddau ac amddiffyn rhyngwladol.



\* **Strong QMV** = 72% of the 27 Member States, i.e. 20 Member States representing 65 % of the EU 27 population.

Bydd y Cyngor yn cwrdd ar ddiwedd mis Ebrill i drafod a chytuno ar y canllawiau ar gyfer y trafodaethau.

Yna, gall trafodaethau ddechrau ym mis Mai/ Mehefin a rhagwelir y byddant yn para am 18 mis hyd at fis Hydref 2018. Bydd hyn felly yn rhoi digon o amser i Senedd Ewrop gymeradwyo'r cytundeb a galluogi i'r DU adael yn mis Mawrth 2019.

Nid yw'n glir ar hyn o bryd os bydd rhaid i Senedd y DU bleidleisio ar y cytundeb. Bydd y Llywodraeth, o bosib, yn ystyried hyn yn nes at yr amser.

Os na cheir cytundeb o fewn dwy flynedd gall y DU wneud cais i ymestyn y cyfnod trafod. Byddai'n rhaid i EU27 gytuno â hyn. Os nad yw'r EU27 yn cytuno, byddai'r DU yn gadael heb gytundeb ar waith. Mae hefyd posibilrwydd na fydd Senedd Ewrop yn cydsynio'r cytundeb.

Dywed Llywodraeth y DU nad yw o'r farn na fydd cytundeb ond fe fydd yn barod ar gyfer pob digwyddiad posibl.

## **Y Bil Diddymu Mawr**

Rydych yn siŵr o fod yn gwybod erbyn hyn bod y DU yn paratoi i sicrhau bod holl gyfreithiau'r UE yn rhan o gyfreithiau'r DU drwy gyhoeddi'r Bil Diddymu Mawr. Felly, yn y dyfodol, gall y llywodraeth wneud newidiadau i'r cyfreithiau hyn, eu gwella neu eu diddymu'n gyfan gwbl.

Mwy o wybodaeth:

Gan Lywodraeth y DU:

[www.planforbritain.gov.uk](http://www.planforbritain.gov.uk)

Yr Adran ar gyfer Gadael yr UE - <http://bit.ly/Deptexit>

Gan yr Undeb Ewropeaidd:

Tasglu'r Comisiwn Ewropeaidd ar drafodaethau Erthygl 50 gyda'r DU

Y Cyngor Ewropeaidd - <http://bit.ly/CouncilBrexite>

## **Erasmus+ a Brexit**

Yn ddiweddar, rydym wedi derbyn sawl ymholiad ynglŷn â'r effaith y bydd ymadawiad y DU o'r UE yn ei gael ar Erasmus+, megis a yw unigolion a sefydliadau o'r DU yn gallu cymryd rhan, gwneud ceisiadau newydd, ac a fydd hyn yn parhau wedi i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Y datganiad swyddogol yw:

Tan y bydd y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd yn swyddogol, bydd y gweithgareddau ynghlwm ag Erasmus+, sy'n gysylltiedig â'r DU, yn parhau i gael eu hariannu, ac felly mae dinasyddion y DU yn gymwys i ymgeisio.

Serch hynny, nid yw cymryd rhan yn Erasmus+ yn ddibynnol ar eich aelodaeth â'r UE. Mae sawl gwlad y tu allan i'r UE – gydag amodau a meini prawf penodol – wedi ffurfio partneriaeth ag Erasmus+ i ehangu'r ffiniau a'r cyfleoedd y mae'r rhaglen yn gynnig.

Gweler rhestr o wledydd sy'n cymryd rhan yn Erasmus+ yma:

<https://www.erasmusplus.org.uk/participating-countries>

## **Gwirfoddoli a Gweithio Gyda Chorfflu Undod Ewropeaidd**

Mae Corfflu Undod Ewropeaidd yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc wirfoddoli neu weithio ar brosiectau yn eu gwledydd eu hunain neu dramor sydd o fudd i gymunedau a phobl. Gall pobl ifanc rhwng 18-30 mlwydd oed gymryd rhan. Mae modd i chi gofrestru yn 17 mlwydd oed ac mae'n rhaid i chi gwblhau'r prosiect cyn i chi droi'n 31 mlwydd oed. Mae'n agored i ddinasyddion a phreswylwyr cyfreithlon mewn unrhyw wlad sy'n aelod o'r UE neu Wlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy, Twrci, a Chyn-Weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia.

Unwaith y byddwch wedi mynegi eich diddordeb am fod yn rhan o'r corfflu, bydd eich manylion yn cael eu cadw ar gronfa ddata a gall sefydliadau sy'n chwilio am wirfoddolwyr ar gyfer eu prosiectau bori drwy'r gronfa ddata. Mae adran wirfoddoli'r corfflu yn cynnig gwasanaeth gwirfoddoli llawn amser am 2-12 mis. Nid yw'r gwirfoddolwyr yn cael cyflog ond yn dibynnu ar y lleoliad, telir yr holl gostau, yn cynnwys costau teithio at leoliad y prosiect, llety, prydau bwyd, yswiriant meddygol a swm bychan o arian gwario ar gyfer costau byw o ddydd i ddydd.

Mae'r adran alwedigaethol yn rhoi swydd, hyfforddeiaeth neu brentisiaeth ac mae'r unigolion yn cael cyflog yn unol â'r cyfreithiau cyflog cenedlaethol priodol a'r cytundebau ar y cyd sydd mewn grym.

I gael rhagor o fanylion ewch i: <https://europa.eu/youth/solidarity/>



## Y Gornel Goginio:

Cyfres achlysurol newydd yn edrych ar draddodiadau coginio yn Ewrop.

### **HANES MARSIPÁN YN EWROP.**



Yn Ewrop, soniwyd am farsipán am y tro cyntaf yn Sisili, fel Panis Martinus (*March Bread*) neu marzipan. Yn ôl y chwedl, dyfeisiwyd Marsipán yn yr Eidal wedi cynhaeaf gwael, ac yr unig fwyd oedd ar ôl oedd almonau. Yn sicr mae'r Eidalwyr wedi bod yn ychwanegu almonau at fara a phitsas ers blynnydoedd ond gellir dweud bron yn sicr, fe ddaeth Marsipán yn wreiddiol o'r Dwyrain Canol, Persia (Iran) yn benodol, a chyfeirir ato mewn llyfr barddoniaeth yn 893. Cyflwynwyd Marsipán i Ewrop, yn enwedig yr Almaen, mwy na thebyg gyda dychweliad y Croesgadwyr, mae'n debyg drwy Twrci.

Caiff Marsipán ei wneud ag almonau wedi'u malu'n fân a siwgr neu fêl, a chredir ei fod wedi'i enwi ar ôl Sant Marcus. Yn yr Almaen, gweinir Marsipán Konigsberg sy'n fath arbennig o farsipán brown euraidd â marmalêd yn y canol.

Yn yr Eidal, yn Palermo'n enwedig, caiff ei siapio a'i baentio â lliw bwyd artiffisial er mwyn iddo edrych yn debyg i ffrwythau. Caiff ei ffurfio i siapiau anifeiliaid syml yn Toledo, Sbaen. Yng Ngwlad Groeg a Cyprys, mae marsipán fel arfer yn cael ei adael yn wyn ac yn draddodiadol caiff ei weini mewn priodasau. Mae Figolla, dantaith melys â llenwad marsipán, yn boblogaidd iawn yn Malta. Yn yr Iseldiroedd ac yng Ngwlad Belg, rhoddir marsipán yn anrheg ar noswyl Nadolig, ac yn yr Almaen, fel arfer caiff ei siapio ar ffurf torth o'r enw Marzipanbrot. Yn Norwy a Denmarc caiff ei siapio ar ffurf moch bach ar gyfer y Nadolig ac wyau ar gyfer y Pasg.

## Gweithgareddau Europe Direct

Mae misoedd cyntaf 2017 yn sicr wedi bod yn rhai prysur iawn yn y ganolfan. Rydym wedi mynychu sawl ffair yrfaeodd mewn colegau lleol, prifysgolion ac ysgolion, yn darparu gwybodaeth am weithio mewn gwlad UE arall a gwybodaeth hefyd am y cyfleoedd i wirfoddoli, gweithio a hyfforddi mewn gwlad arall drwy raglen Erasmus+. Rydym hefyd wedi bod yn cynnal gweithdai a gweithgareddau mewn ysgolion cynradd, er mwyn gwneud y disgyblion yn gyfarwydd ag Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd. Cynaliasom weithdai hefyd yng Ngholeg Cambria ar gyfer disgyblion y cwrs busnes Lefel A, a oedd yn trafod yr Undeb Ewropeaidd, masnach, ac wrth reswm, Brexit a'u barn arno.

Byddwn yn parhau i gynnal gweithdai mewn ysgolion cynradd ac uwchradd lleol. Byddwn hefyd yn mynychu'r Wyl Addysg yn The Marches School ger Croesoswallt ar 29 Mehefin. Byddwn yn siŵr o ddod â digon o gyhoeddiadau a gwybodaeth am y cyfleoedd mae Erasmus+ yn ei gynnig i staff a disgyblion. Rydym hefyd yn mynychu Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen bob blwyddyn yn ogystal â Sioe Amaethyddol Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Os ydych yn mynychu unrhyw un o'r digwyddiadau hyn, cofiwch alw heibio ein stondin i ddweud helo! Rydych yn sicr o ddarganfod gwybodaeth ddefnyddiol tra eich bod yno hefyd.



### **Beth yw Europe Direct?**

Gwasanaeth gwybodaeth am Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd yw Europe Direct. Rydym ni'n darparu cyhoeddiadau **AM DDIM** i bob oed ar bob math o bynciau, o gyfleoedd yn Ewrop i becynnau i athrawon. Gall y rhain gynnwys mapiau, baneri a phosteri. Rydym hefyd yn darparu gweithdai **AM DDIM** ar bynciau fel hanes yr UE, yr hyn mae'n ei wneud, sut mae'n llunio cyfreithiau a phwysigrwydd dysgu ieithoedd tramor modern. Gallwn deilwra'r gweithdai i gynnwys pethau fel cwisiau, gemau mapiau a chreu ASE a bag Ewropeaidd. Yn ogystal â chyhoeddiadau a gweithdai, gallwn helpu i drefnu wythnosau Ewropeaidd, cynulliadau Ewropeaidd, diwrnodau hwyl ac ymweliadau gan ASEau.

### **Engbreiffiau o Weithdai:**

- Tylwyth Teg Ewrop.
- 'Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd – beth ydyn nhw?'
- Creu eich Dinesydd Ewropeaidd eich hun, a Baner yr UE.
- Partneriaethau Strategol Erasmus+ ar gyfer Ysgolion (i athrawon).
- E-Efeillio (i athrawon).
- Ymweliadau **AM DDIM** ag adeilad y Senedd Ewropeaidd yn Llundain.
- Parlamentarium – Canolfan Ymwelwyr y Senedd Ewropeaidd – Brwsel.

Os hoffech chi i Europe Direct Wrexham ddod i roi cyflwyniadau, dod i ddigwyddiadau neu os hoffech chi fwy o wybodaeth, yna mae croeso i chi gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Europe Direct  
Wrexham**

Llyfrgell Wrexham,

Ffordd Rhosddu,

Wrexham,

LL11 1AU

[europedirect@wrexham.gov.uk](mailto:europedirect@wrexham.gov.uk)

01978 292631